

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Rheolau Sefydlog



Dyddiad Adolygu 2018

Mabwysiadwyd 6 Mawrth 2002

Diwygiwyd 30 Ionawr 2004

Diwygiwyd 23 Mehefin 2006

Adolygwyd a Diwygiwyd 20 Mai 2010

Adolygwyd a Diwygiwyd 22 Mai 2015

Diwygiwyd 8 Ebrill 2016 (Gohebiaeth hwyr)

Diwygiwyd 19 Mehefin 2017 (Cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Rheolau Sefydlog

Mynegai

	Tudalen
Darpariaethau Cyffredinol	4
1.0 Awdurdod	4
2.0 Cymhwyso	4
3.0 Diffiniadau	4
4.0 Cyfarfodydd yr Awdurdod	5
5.0 Cyfarfodydd Pwyllgorau	6
6.0 Cworwm	6
7.0 Trefn Busnes	6
8.0 Penodiadau gan yr Awdurdod	7
9.0 Cofnodion yr Awdurdod	8
10.0 Cofnodion Pwyllgorau	8
11.0 Cynigion	8
12.0 Cwestiynau	10
13.0 Rheolau Trafodaeth	11
14.0 Gwrthdroi Penderfyniad Blaenorol	15
15.0 Pleidleisio	15
16.0 Cofnodion o Bresenoldeb – Aelodau	15
17.0 Ymddygiad Afreolus – Aelodau	16
18.0 Aflonyddwch – Aelodau o'r Cyhoedd	16

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

19.0	Recordio a Ffilmio Cyfarfodydd	16
20.0	Defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol gan Aelodau	16
21.0	Sêl yr Awdurdod	16
22.0	Archwilio Tiroedd, Adeiladau a.y.b.	17
23.0	Archwilio Dogfennau	17
24.0	Cyfrinachedd	17
25.0	Penodi Pwyllgorau	18
26.0	Atal y Rheolau Sefydlog	18
27.0	Dehongli'r Rheolau Sefydlog	19
28.0	Rheoliadau Ariannol	19
29.0	Penodi Prif Swyddogion	19

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog Rheolau Sefydlog

Darpariaethau Cyffredinol

1.0 Awdurdod

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995.

2.0 Cymhwyso

- 2.1 Bydd Rheolau Sefydlog Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gymwys ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
- 2.2 Bydd y Rheolau Sefydlog hyn i gyd yn gymwys i gyfarfodydd yr Awdurdod llawn. Bydd Rheolau Sefydlog 5-10, 11.7 -11.9, 12-26 yn gymwys i gyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau'r Awdurdod.

3.0 Diffiniadau

Bydd "**Yr Awdurdod**" yn golygu cyfarfod Blyneddol, Cyffredinol neu Arbennig rhwng aelodaeth lawn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Bydd "**Aelod**" yn golygu Cynghorydd etholedig a benodwyd i'r Awdurdod gan Awdurdod Lleol neu berson a benodwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

Bydd "**Cadeirydd**" a "**Dirprwy Gadeirydd**" yn golygu Aelodau a benodwyd felly ar y pryd yn unol â Rheol Sefydlog 8.0.

Bydd "**Prif Weithredwr**" yn golygu'r sawl a benodwyd gan yr Awdurdod yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Deddf yr Amgylchedd 1995.

Bydd "**Swyddog**" yn golygu rhywun a gyflogir ar ran yr Awdurdod.

Bydd "**Ysgrifenedig**" yn cynnwys dulliau papur ac electronig ac i'r graddau y mae'n ofynnol i unrhyw hysbysiad, cais neu gyfathrebiad gan aelod gael ei roi'n ysgrifenedig a/neu ei lofnodi, gall hysbysiad, cais, cyfathrebiad a/neu lofnod o'r fath gael ei roi trwy ddull electronig o gyfrif e-bost unigol yr aelod hwnnw.

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

4.0 Cyfarfodydd yr Awdurdod

4.1 Nifer y Cyfarfodydd

Un cyfarfod blynyddol a faint bynnag o gyfarfodydd ar gyfer trafod busnes cyffredinol y bydd yr Awdurdod yn eu pennu.

4.2 Dyddiadau Cyfarfodydd

Cynhelir cyfarfodydd yr Awdurdod mewn ysbeidiau mor reolaidd â phosibl ar ddyddiadau i'w pennu gan yr Awdurdod. Bydd gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd awdurdod i newid dyddiad unrhyw un o gyfarfodydd yr Awdurdod os yw newid o'r fath yn angenrheidiol ym marn y Cadeirydd er mwyn cyflawni busnes yr Awdurdod mewn modd cyfleus a/neu effeithlon ar yr amod y rhoddir rhybudd o newid o'r fath o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn y dyddiad gwreiddiol.

4.3 Cyfarfodydd Arbennig

4.3.1 Gall cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod gael ei alw unrhyw bryd gan y Cadeirydd neu, os yw swydd y Cadeirydd yn wag, gan y Dirprwy Gadeirydd.

4.3.2 Hefyd bydd y Cadeirydd yn galw cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod yn dilyn cael cais ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw, wedi'i lofnodi gan bum Aelod o'r Awdurdod. Os na fydd y Cadeirydd yn galw cyfarfod Arbennig o fewn pedwar diwrnod gwaith clir i gael y cais, gall unrhyw bum Aelod o'r Awdurdod alw cyfarfod Arbennig o'r Awdurdod ar unwaith.

4.4 Amser Cyfarfodydd

Bydd cyfarfodydd yr Awdurdod yn dechrau ar ba bynnag amseroedd y bydd yr Awdurdod yn eu pennu. Bydd gan y Prif Weithredwr mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd awdurdod i newid amser unrhyw un o gyfarfodydd yr Awdurdod os yw newid o'r fath yn angenrheidiol ym marn y Cadeirydd er mwyn cyflawni busnes yr Awdurdod mewn modd cyfleus a/neu effeithlon ar yr amod y rhoddir rhybudd o newid o'r fath o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod.

4.5 Gwŷs ar gyfer Cyfarfod

4.5.1 Bydd y Prif Weithredwr yn anfon y gwŷs ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod y mae'n ymwneud ag ef, a bydd yn ei anfon trwy

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

bost rhagdaledig cyffredin neu yn achos yr aelodau sydd wedi gofyn am hynny, trwy bost electronig.

- 4.5.2 Bydd y Gwŷs ar gyfer cyfarfod Arbennig yn nodi'r holl fusnes y bwriedir ei drafod yn y cyfarfod hwnnw.

5.0 Cyfarfodydd Pwyllgorau

- 5.1 Bydd nifer, dyddiad ac amser cyfarfodydd Pwyllgorau fel a bennir gan y Pwyllgor neu ei Gadeirydd er mwyn cyflawni ei fusnes mewn modd cyfleus a/neu effeithlon.
- 5.2 Bydd y Prif Weithredwr yn anfon y gwŷs ar gyfer unrhyw Bwyllgor o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod y mae'n ymwneud ag ef, a bydd yn ei anfon trwy bost rhagdaledig cyffredin neu yn achos yr aelodau sydd wedi gofyn am hynny, trwy bost electronig.

6.0 Cworwm

- 6.1 Ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Awdurdod na'i Bwyllgorau oni bai fod o leiaf un rhan o dair o gyfanswm llawn Aelodau'r Awdurdod, y Pwyllgor neu'r Is-bwyllgor yn bresennol. Os bydd mwy nag un rhan o dair o'r aelodaeth wedi'u hanghymhwyso, bydd y cworwm yn cael ei bennu trwy gyfeirio at nifer yr Aelodau sy'n dal i fod yn gymwys. Yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, Pwyllgorau neu Is-bwyllgorau, bydd y cworwm yn cynnwys o leiaf un aelod ar ran awdurdod lleol ac o leiaf un aelod a benodwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.
- 6.2 Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2017, ni fydd unrhyw fusnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy oni bai bod hanner cyfanswm llawn Aelodau'r Pwyllgor yn bresennol. Os bydd mwy nag un rhan o dair o'r aelodaeth wedi'u hanghymhwyso, bydd y cworwm yn cael ei bennu trwy gyfeirio at nifer yr Aelodau sy'n dal i fod yn gymwys. Yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, bydd y cworwm yn cynnwys o leiaf un aelod ar ran awdurdod lleol ac o leiaf un aelod a benodwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru. Ni chaniateir defnyddio dirprwyon.
- 6.3 Yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor, os bydd y Cadeirydd yn datgan ar ôl cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol nad oes cworwm yn bresennol bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio.
- 6.4 Bydd unrhyw fusnes y bwriadwyd ei drafod ond nas trafodwyd yn cael ei ohirio tan:

ddyddiad ac amser a bennir gan y Cadeirydd ar yr amser y caiff y cyfarfod ei ohirio ac yn niffyg hynny;

cyfarfod nesaf yr Awdurdod.

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

6.5 Bydd y cworwm ar gyfer y Pwyllgor Safonau'n cael ei reoli gan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 sy'n datgan fel a ganlyn:

- Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o bwyllgor safonau -
 - (a) onid oes tri aelod o leiaf yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd; a
 - (b) onid yw o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol

7.0 Trefn Busnes

7.1 Yn amodol ar baragraffau 7.2, 7.3 a 7.4 o'r Rheol Sefydlog hon, bydd trefn busnes ym mhob un o gyfarfodydd yr Awdurdod fel a ganlyn:

7.1.1 yn y Cyfarfod Blynyddol yn unig bob blwyddyn, penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yn unol â'r weithdrefn a nodir yn Rheol Sefydlog 8.0;

7.1.2 dewis person i lywyddu os yw'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn absennol;

7.1.3 ymdrin ag unrhyw fusnes y mae'n statudol ofynnol ei chyflawni cyn unrhyw fusnes arall;

7.1.4 Nodi ymddiheuriadau am absenoldeb ac ymdrin ag unrhyw ohebiaeth

7.1.4(b) Dylai unrhyw ohebiaeth neu ddogfennau a gyflwynir i'r Awdurdod, gan gynnwys cyfathrebiadau electronig, i'w hystyried gan yr Awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau gael eu cyflwyno fan bellaf erbyn 10am, dri diwrnod gwaith cyn y mae'r cyfarfod i fod i gael ei gynnal. I osgoi amheuaeth, ni fydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law ar ôl yr amser hwn yn cael ei ystyried mewn unrhyw gyfarfod o'r fath, ac eithrio gyda disgresiwn llwyr a dilyffethair y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr (neu ei ddirprwy enwebedig) yn achos gwybodaeth newydd.

7.1.5 Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant. Mae'n ofynnol i aelodau ddatgan ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y cyfarfod.

7.1.6 cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf yr Awdurdod fel cofnod cywir. Ni fydd yr is-gymal hwn yn gymwys i unrhyw gyfarfod Arbennig o'r Awdurdod oni bai fod y busnes a drafodir mewn cyfarfod Arbennig o'r fath yn addasu neu'n effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw benderfyniad a basiwyd mewn cyfarfod blaenorol o'r Awdurdod nad yw'r cofnodion ar ei gyfer wedi cael eu cymeradwyo a'u llofnodi;

7.1.7 Ymdrin ag unrhyw geisiadau i annerch y cyfarfod yn unol â Chynllun Siarad Cyhoeddus yr Awdurdod sydd mewn grym ar y pryd.

7.1.8 cyhoeddiadau a gohebiaeth y Cadeirydd;

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 7.1.9 cyflawni busnes sydd dros ben ers y cyfarfod diwethaf, er enghraifft os nad oedd cworwm yn y cyfarfod diwethaf a bod busnes heb ei gwblhau
- 7.1.10 Cyhoeddiadau'r Prif Weithredwr
- 7.1.11 ystyried cynigion yn y drefn yr hysbyswyd yn eu cylch;
- 7.1.12 busnes arall a nodwyd yn y wŷs;
- 7.1.13 ystyried cwestiynau y rhoddwyd rhybudd yn eu cylch yn unol â'r Rheolau Sefydlog;
- 7.1.14 pa bynnag fusnes, a nodir yn y wŷs, y mae'r Cadeirydd yn ystyried ei fod yn fater o frys. Bydd natur y brys wedi'i nodi yng nghofnodion y cyfarfod.
- 7.2 Ni ddylid disodli Trefn busnes dan eitemau 7.1.1, 7.1.2 neu 7.1.3.
- 7.3 Mewn cyfarfod Arbennig ni ddylid disodli Trefn busnes dan eitemau 7.1.2, 7.1.3 a 7.1.4 a dylai unrhyw fusnes arall fod yn union fel a nodir yn y Wŷs ac ni ddylid ystyried unrhyw fusnes arall.
- 7.4 Gall trefn unrhyw fusnes arall gael ei hamrywio naill ai yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd neu trwy benderfyniad a gaiff ei basio ar gynnig a wnaed, a eiliwyd ac a roddwyd gerbron heb drafodaeth mewn modd priodol.

8.0 Penodiadau gan yr Awdurdod

- 8.1 Yng Nghyfarfod Blynyddol yr Awdurdod y busnes cyntaf fydd ethol Cadeirydd. Ar gyfer yr etholiad hwnnw ac ar gyfer pob penodiad dan y rheol sefydlog hon, dylai enwebiadau fod yn ysgrifenedig yn y cyfarfod. Os ceir mwy nag un enwebiad bydd yr etholiad yn mynd yn ei flaen trwy bleidlais trwy dynnu enw'r enwebai â'r nifer isaf o bleidleisiau nes bod un o'r enwebeion wedi cael mwyafrif llwyr o'r pleidleisiau a fwriwyd.
- 8.2 Bydd y Cadeirydd yn cael ei ethol yn gyntaf. Os yw'r Cadeirydd presennol yn dymuno sefyll i geisio cael ei ail-ethol dylid gofyn i'r Dirprwy gadeirio'r eitem honno. Os yw'r Dirprwy'n dymuno sefyll yn yr etholiad ar gyfer swydd y Cadeirydd yna dylid penodi Aelod arall i gadeirio'r eitem honno.
- 8.3 Dylai'r Awdurdod ethol Dirprwy Gadeirydd yn yr un modd.
- 8.4 Ar gyfer pob penodiad dan y Rheol Sefydlog hon (a fydd, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys ethol Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion pwyllgorau a phenodiadau i gyrff allanol ac aelod eiriolwyr ond nid y rhain yn unig) gall pob person a enwebir, yn ôl ei ddisgrisiwn llwyr (ac yn nhrefn yr wyddor) annerch y cyfarfod am hyd at ddau funud yn syth cyn cynnal y bleidlais. Ar ddiwedd pob pleidlais bydd y sawl sy'n llywyddu'n cyhoeddi nifer y pleidleisiau a fwriwyd dros bob person a enwebwyd.

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 8.5 Pan fo mwy na dau berson wedi'u henwebu ar gyfer unrhyw swydd sydd i'w llenwi gan yr Awdurdod a bod dim mwyafrif o blaid un person ar ôl cyfrif y pleidleisiau a fwriwyd, dylai enw'r sawl â'r nifer lleiaf o bleidleisiau gael ei dynnu oddi ar y rhestr a dylid cynnal pleidlais newydd ac yn y blaen nes ceir mwyafrif o bleidleisiau o blaid un person.

9.0 Cofnodion yr Awdurdod

- 9.1 Ni ddylid cynnal trafodaeth ynghylch y cofnodion, ac eithrio ynghylch eu cywirdeb a dylai unrhyw gwestiynau ynghylch eu cywirdeb gael eu codi trwy gynnig. Os na chodir unrhyw gwestiwn, neu os codir cwestiwn yna cyn gynted â'i fod wedi cael ei ddatrys, bydd y Cadeirydd yn llofnodi'r cofnodion.

10.0 Cofnodion Pwyllgorau

Dylai cofnodion y trafodion ar gyfer pob Pwyllgor gael eu derbyn heb eu darllen yn uchel yng nghyfarfod Cyffredin nesaf y Pwyllgorau a chael eu llofnodi gan Gadeirydd y cyfarfod dilynol.

11.0 Cynigion

11.1 Rhybuddion o Gynigion

Yn amodol ar Baragraff 11.5 dylai rhybudd o bob cynnig i'w ystyried gan yr Awdurdod gael ei roi'n ysgrifenedig, wedi'i lofnodi gan o leiaf ddau aelod o'r Awdurdod, a chael ei gyflwyno o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod nesaf yr Awdurdod i swyddfa'r Prif Weithredwr. Ar ôl ei dderbyn dylid rhoi'r dyddiad arno, a dylai gael ei rifo yn y drefn y cafodd ei dderbyn a'i gofnodi mewn llyfr a ddylai fod yn agored i'w archwilio gan bob Aelod.

11.2 Cynigion i'w nodi mewn Gwŷs

Dylai'r Prif Weithredwr nodi yn y wŷs ar gyfer pob un o gyfarfodydd yr Awdurdod yr holl gynigion y rhoddwyd rhybudd yn eu cylch mewn modd priodol yn y drefn y cawsant eu derbyn oni bai fod yr Aelod, wrth roi rhybudd o'r fath, wedi nodi'n ysgrifenedig bod bwriad i wneud y cynnig mewn rhyw gyfarfod diweddarach neu ei fod wedi tynnu'r cynnig yn ôl yn ysgrifenedig ers hynny.

11.3 Cynnig Heb ei Wneud

Os nad yw cynnig a nodwyd yn y wŷs yn cael ei wneud naill ai gan Aelod a roddodd rybudd ohono neu gan ryw Aelod arall ar ei ran, oni bai ei fod yn cael ei ohirio trwy gydsyniad yr

Awdurdod, bydd yn cael ei drin fel pe bai wedi cael ei dynnu'n ôl ac ni ddylai gael ei wneud heb rybudd newydd.

11.4 Atgyfeirio at Bwyllgor neu Is-bwyllgor

11.4.1 Os yw cynnwys unrhyw gynnig y rhoddwyd rhybudd ohono mewn modd priodol yn perthyn i faes unrhyw Bwyllgor dylai, ar ôl cael ei wneud a'i eilio, gael ei atgyfeirio heb drafodaeth at ba bynnag Bwyllgor a bennir gan yr Awdurdod ar gyfer ystyriaeth ac adroddiad.

11.4.2 Os yw'r Cadeirydd yn ystyried bod hynny'n gyfleus a/neu'n ffafriol er mwyn cyflawni busnes yn effeithlon, gall y Cadeirydd roi caniatâd i ymdrin â'r cynnig yn y cyfarfod y caiff ei gyflwyno ynddo.

11.5 Cwmpas y Cynnig

Dylai pob cynnig fod yn berthnasol i ryw fater y mae gan yr Awdurdod bwerau neu ddyletswyddau mewn perthynas ag ef neu sy'n effeithio ar Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

11.6 Rhybudd o Gyfarfod

Dylai'r aelodau sydd wedi gwneud cynnig a atgyfeiriwyd at unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor gael rhybudd o gyfarfod y Pwyllgor lle bwriedir ystyried y cynnig, a dylent gael cyfle i egluro'r cynnig.

11.7 Cynigion a gwelliannau nad oes angen iddynt fod yn ysgrifenedig ac y gellir eu cynnig heb Rybudd

Nid oes angen i'r cynigion a gwelliannau canlynol fod yn ysgrifenedig a gellir eu cynnig heb rybudd:

11.7.1 penodi Cadeirydd y cyfarfod lle gwneir y cynnig;

11.7.2 cynigion sy'n ymwneud â chywirdeb y cofnodion;

11.7.3 cynnig bod eitem o fusnes a nodir yn y wŷs yn cael blaenoriaeth;

11.7.4 cynnig y dylid rhoi caniatâd i dynnu cynnig yn ôl;

11.7.5 ymestyn y terfyn amser ar gyfer areithiau;

11.7.6 gwelliannau i gynigion;

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 11.7.7 cynnig bod yr Awdurdod yn symud ymlaen at y busnes nesaf;
- 11.7.8 cynnig bod y cwestiwn yn cael ei roi gerbron yn awr;
- 11.7.9 cynnig bod y ddadl yn cael ei rhoi gerbron yn awr;
- 11.7.10 cynnig bod cyfarfod yr Awdurdod yn cael ei ohirio yn awr;
- 11.7.11 cynnig i atal Rheolau Sefydlog, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 27;
- 11.7.12 cynnig dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y cyhoedd;
- 11.7.13 cynnig nad yw Aelod a enwir dan Reol Sefydlog 17.0 yn cael ei glywed ymhellach neu ei fod yn gadael y cyfarfod;
- 11.7.14 rhoi cydsyniad yr Awdurdod lle mae cydsyniad yr Awdurdod yn ofynnol dan y Rheolau Sefydlog hyn.

11.8 Cynigion sy'n effeithio ar Swyddogion

Os yw unrhyw gwestiwn yn codi mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu Bwyllgor ynghylch penodi, dyrchafu, diswyddo, cyflog, blwydd-daliadau, amodau gwasanaeth neu ymddygiad unrhyw Swyddog neu lle mae pobl yn cael eu cyfweld ar gyfer penodiad gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dylai cynnig dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y cyhoedd gael ei wneud ar unwaith gan y Cadeirydd a'i roi gerbron heb ddadl.

11.9 Cofnodi Cynigion

Dylai enw'r cynigiwr a'r eiliwr ar gyfer unrhyw gynigion neu welliannau gael eu cofnodi yng nghofnodion cyfarfod yr Awdurdod neu'r Pwyllgor.

12.0 Cwestiynau

12.1 Busnes yr Awdurdod

Gall Aelod ofyn unrhyw gwestiwn i Gadeirydd yr Awdurdod neu Gadeirydd unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor am fusnes yr Awdurdod gerbron yr Awdurdod, os caiff y cwestiwn ei roi gerbron cyn bod y broses o ystyried y busnes hwnnw gan yr Awdurdod wedi dod i ben.

12.2 Rhybudd o gwestiynau ac ymateb iddynt

Gall Aelod:

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 12.2.1 ofyn unrhyw gwestiwn am fusnes yr Awdurdod ar yr amod y ceir rhybudd ysgrifenedig yn swyddfa'r Prif Weithredwr o leiaf bedwar diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod;
- 12.2.2 gyda chaniatâd y Cadeirydd, roi unrhyw gwestiwn gerbron sy'n ymwneud â busnes brys ond dylai copi o gwestiwn o'r fath gael ei anfon, os yn bosibl, at y Prif Weithredwr fan bellaf erbyn 12 canol dydd ar y diwrnod cyn y cyfarfod

Ar yr amod:

- 12.2.3 lle mae'r wybodaeth a ddymunir wedi'i chynnwys mewn unrhyw un o gyhoeddiadau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yr ystyrir ei fod yn ymateb digonol os yw'r cyhoeddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth yn cael ei nodi;
- 12.2.4 os na ellir rhoi ymateb i unrhyw gwestiwn yn gyfleus ar lafar, yr ystyrir ei fod yn ymateb digonol os yw'r ateb yn cael ei gylchredeg i Aelodau gyda chofnodion y cyfarfod lle gofynnwyd y cwestiwn;
- 12.2.5 y dylai pob cwestiwn gael ei roi gerbron a'i ateb heb drafodaeth.
- 12.2.6 y gall person y gofynnwyd cwestiwn iddo wrthod ateb.
- 12.3 Wrth gymhwyso'r Rheol Sefydlog hon i unrhyw Bwyllgor dylai rhybudd fod i swyddfa'r Prif Weithredwr.
- 12.4 Gall aelod sy'n gofyn cwestiwn dan Reol Sefydlog 12.2.1 neu 12.2.2 ofyn un cwestiwn atodol heb rybudd i'r aelod y gofynnwyd y cwestiwn cyntaf iddo. Mae'n rhaid i'r cwestiwn atodol fod yn un sy'n codi'n uniongyrchol o'r cwestiwn gwreiddiol neu'r ymateb.

13.0 Rheolau Dadl

13.1 Trafod Cynnig neu Welliant

Ni ddylai cynnig neu welliant gael ei drafod oni bai ei fod wedi cael ei gynnis a'i eilio, ac oni bai y rhoddwyd rhybudd yn barod yn unol â Rheol Sefydlog 11, os yw'r Cadeirydd yn mynnu hynny, dylai gael ei gyfleu'n ysgrifenedig a'i roi i'r Cadeirydd cyn ei fod yn cael ei drafod ymhellach na'i roi gerbron yn y cyfarfod.

13.2 Araith eiliwr

Wrth eilio cynnig neu welliant gall Aelod ddatgan ei fwriad i beidio â siarad tan adeg ddiweddarach yn y ddadl.

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

13.3 Aelod yn siarad

Er mwyn siarad, dylai Aelod ddynodi wrth y Cadeirydd trwy godi ei law ac annerch y cyfarfod pan fydd y Cadeirydd yn galw arno. Os oes dau Aelod neu fwy'n dynodi eu bod yn dymuno siarad, dylai'r Cadeirydd alw ar un ohonynt i siarad; dylai'r llall neu'r lleill fod yn dawel. Tra bydd Aelod yn siarad dylai'r Aelodau eraill aros yn dawel oni bai eu bod yn siarad ar bwynt o drefn neu i roi eglurhad personol.

13.4 Cynnwys a hyd areithiau

Ni ddylai'r un araith, yn achos cynigiwr y cynnig, fod yn hwy na phum munud ac eithrio gyda chydysniad y Cadeirydd.

13.5 Siarad fwy nag unwaith

Ni ddylai Aelod annerch yr Awdurdod fwy nag unwaith mewn unrhyw gynnig neu welliant, ar yr amod bob amser y gall Aelod siarad:

13.5.1 ar bwynt o drefn;

13.5.2 i egluro rhyw ran berthnasol o araith a wnaed ganddo y mae'n credu iddi gael ei chamddeall;

13.5.3 unwaith ar welliant a gynigiwyd gan Aelod arall;

13.5.4 os yw'r cynnig wedi cael ei wella ers i'r Aelod hwnnw siarad ddiwethaf i gynnig gwelliant pellach; neu

13.5.5 ar y prif fater ni waeth pa un a yw'r Aelod eisoes wedi siarad ar welliant pa un a gafodd ei dderbyn ai peidio.

13.6 Gwelliannau'n bod yn berthnasol

Dylai gwelliant fod yn berthnasol i'r cynnig a dylai:

13.6.1 atgyfeirio pwnc y cynhelir dadl yn ei gylch at yr Awdurdod, Pwyllgor neu Is-bwyllgor i gael ei ystyried neu ei ailystyried;

13.6.2 hepgor geiriau;

13.6.3 hepgor geiriau a mewnosod neu ychwanegu geiriau eraill;

13.6.4 mewnosod neu ychwanegu geiriau;

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

13.7 Trafod gwelliannau

13.7.1 Dim ond un gwelliant all gael ei gynnig a'i drafod ar y tro ac ni ddylid cynnig unrhyw welliant pellach nes bod y gwelliant sy'n cael ei drafod wedi cael ei waredu ond gellir rhoi rhybudd o faint a fynnir o welliannau. Os caiff gwelliant ei dderbyn, bydd y cynnig fel y cafodd ei wella'n disodli'r cynnig gwreiddiol, yr ystyrir ei fod wedi'i waredu a'r cynnig fel y cafodd ei wella fydd y cynnig y gellir cynnig unrhyw welliant pellach iddo.

13.7.2 Gall y Cadeirydd ganiatáu trafod dau welliant neu fwy gyda'i gilydd ond nid pleidleisio arnynt os yw o'r farn y byddai'r dull hwn o gymorth i gyflawni busnes yr Awdurdod mewn modd priodol.

13.8 Gwelliannau pellach

13.8.1 Os bydd gwelliant yn methu, gellir cynnig gwelliannau eraill i'r cynnig gwreiddiol. Os bydd gwelliant yn cael ei dderbyn, bydd y gwelliant fel y cafodd ei wella'n disodli'r cynnig gwreiddiol a hwnnw fydd y cynnig y gellir cynnig unrhyw welliant pellach iddo. Os caiff ei basio felly, ystyrir bod y cynnig gwreiddiol wedi cael ei waredu a bydd y gwelliant yn sefyll yn ei le.

13.8.2 Ni fydd gan y cynigiwr neu'r eiliwr ar gyfer cynnig neu welliant a wrthodwyd gan yr Awdurdod hawl, heb ddisgresiwn y Cadeirydd, i gynnig unrhyw welliant pellach ar y cwestiwn sy'n cael ei drafod.

13.9 Tynnu cynnig neu welliant yn ôl

Gall cynnig neu welliant gael ei dynnu'n ôl gan y cynigiwr gyda chydysyniad yr eiliwr a'r Awdurdod, a ddylai gael ei ddynodi heb drafodaeth, ac ni all unrhyw Aelod siarad arno wedi i'r cynigiwr ofyn am ganiatâd i'w dynnu'n ôl, oni bai fod caniatâd o'r fath wedi cael ei wrthod.

13.10 Hawl i ymateb

Mae gan y cynigiwr ar gyfer cynnig hawl i ymateb ar ddiwedd y ddadl ar y cynnig, yn syth cyn cynnal pleidlais arno, ond dylai'r ymateb fod yn gwbl gyfyngedig i ateb siaradwyr blaenorol ac ni ddylai gyflwyno unrhyw faterion newydd i'r ddadl. Os cynnigir gwelliant, bydd gan gynigiwr y cynnig gwreiddiol hawl i ymateb hefyd ar ddiwedd y ddadl ar y gwelliant ac ni ddylai siarad fel arall ar y gwelliant. Ni fydd gan gynigiwr y gwelliant hawl o gwbl i ymateb i'r ddadl ar ei welliant.

13.11 Cynigion y gellir eu gwneud yn ystod dadl

Pan fo cynnig yn cael ei drafod ni ddylid gwneud unrhyw gynnig arall ac eithrio'r canlynol:

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 13.11.1 gwelliannau i'r cynnig;
- 13.11.2 cynnig bod yr Awdurdod yn symud ymlaen at y busnes nesaf;
- 13.11.3 cynnig bod y cwestiwn yn cael ei roi gerbron yn awr;
- 13.11.4 cynnig bod y ddadl yn cael ei gohirio yn awr;
- 13.11.5 cynnig bod cyfarfod yr Awdurdod yn cael ei ohirio yn awr;
- 13.11.6 cynnig dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i wahardd y cyhoedd;
- 13.11.7 cynnig nad yw Aelod a enwir dan Reol Sefydlog 17.0 yn cael ei glywed ymhellach neu ei fod yn gadael y cyfarfod.

13.12 Cynigion cau

Gall Aelod gynnig heb wneud sylw ar ddiwedd araith gan Aelod arall: “Bod yr Awdurdod yn symud ymlaen at y busnes nesaf”, “Bod y cwestiwn yn cael ei roi gerbron yn awr”, “Bod y ddadl yn cael ei gohirio yn awr” neu “Fod cyfarfod yr Awdurdod yn torri yn awr”, a phan gaiff y cynnig ei eilio bydd y weithdrefn fel a ganlyn:

- 13.12.1 ar gyfer cynnig i symud ymlaen at y busnes nesaf, oni bai fod y mater sydd gerbron y cyfarfod heb gael ei drafod yn ddigonol ym marn y Cadeirydd, dylai'r Cadeirydd roi hawl i gynigiwr y cynnig gwreiddiol ymateb, ac yna gynnal pleidlais ar y cynnig i symud ymlaen at y busnes nesaf;
- 13.12.2 ar gyfer cynnig bod y cwestiwn yn cael ei roi gerbron yn awr, oni bai fod y mater sydd gerbron y cyfarfod heb gael ei drafod yn ddigonol ym marn y Cadeirydd, dylai'r Cadeirydd gynnal pleidlais yn gyntaf ar y cynnig bod y cwestiwn yn cael ei roi gerbron yn awr, ac os caiff ei basio yna dylai roi hawl i gynigiwr y cynnig gwreiddiol ymateb cyn cynnal pleidlais ar y cynnig;
- 13.12.3 ar gyfer cynnig i ohirio'r ddadl neu'r cyfarfod, os nad yw'r mater sydd gerbron y cyfarfod wedi cael ei drafod yn ddigonol ac na ellir yn rhesymol ei drafod yn ddigonol ar yr achlysur hwnnw ym marn y Cadeirydd, dylai'r Cadeirydd gynnal pleidlais ar y dewis i ohirio heb roi hawl i gynigiwr y cynnig gwreiddiol ymateb ar yr achlysur hwnnw.

13.13 Pwyntiau o drefn

- 13.13.1 Gall Aelod ddynodi wrth y Cadeirydd ar bwynt o drefn neu i roi eglurhad personol a dylai gael yr hawl i gael ei glywed ar unwaith.

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 13.13.2 Dylai pwynt o drefn ymwneud dim ond ag achos honedig o dorri Rheol Sefydlog neu ddarpariaeth statudol a dylai'r Aelod nodi'r Rheol Sefydlog neu'r ddarpariaeth statudol a'r modd y cafodd ei dorri.
- 13.13.3 Dylai eglurhad personol fod yn gyfyngedig i ryw ran berthnasol o araith flaenorol gan Aelod neu adroddiad yr ymddengys ei bod o bosibl wedi cael ei chamddeall yn y ddadl bresennol.
- 13.13.4 Ni fydd dyfarniad y Cadeirydd ynglŷn â phwynt o drefn neu dderbynioldeb eglurhad personol yn agored i drafodaeth.

13.14 Parch tuag at y Cadeirydd

Pryd bynnag fydd y Cadeirydd yn dechrau siarad yn ystod dadl dylai Aelod sy'n siarad ar y pryd fod yn dawel.

14.0 Gwrthdroi Penderfyniad Blaenorol

Ni ddylai unrhyw gynnig i wrthdroi unrhyw benderfyniad a basiwyd gan yr Awdurdod yn y chwe mis blaenorol ac ni ddylai unrhyw gynnig neu welliant i'r un perwyl ag un a wrthodwyd yn y chwe mis blaenorol gael ei gynnig oni bai fod y rhybudd ohono a roddwyd yn unol â Rheol Sefydlog 11.0 yn cynnwys enwau o leiaf ddeg Aelod. Pan fo unrhyw gynnig neu welliant o'r fath wedi cael ei waredu gan yr Awdurdod, ni ddylai fod yn agored i unrhyw Aelod wneud cynnig tebyg o fewn cyfnod pellach o chwe mis. Ni fydd y Rheol Sefydlog hon yn gymwys i gynigion a wnaed yn unol ag argymhelliad gan Bwyllgor neu mewn adroddiad gan swyddog.

15.0 Pleidleisio

- 15.1 Yn amodol ar Reol Sefydlog 8.0 dylai pob cwestiwn gael ei benderfynu trwy godi dwylo, oni bai y penderfynwyd yn wahanol trwy fwyafrif yn y cyfarfod.
- 15.2 Unwaith y bydd y Cadeirydd wedi rhoi cwestiwn gerbron ni ddylid cynnal unrhyw drafodaeth bellach arno. Wedi i'r cwestiwn gael ei roi gerbron gan y Cadeirydd ac wedi i'r broses bleidleisio ddechrau ni ddylai unrhyw Aelod siarad, ac ni ddylid gofyn unrhyw gwestiynau.
- 15.3 Yn achos rhaniad cyfartal rhwng y pleidleisiau, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw yn ychwanegol at unrhyw bleidlais sydd gan y Cadeirydd fel Aelod o'r Awdurdod.
- 15.4 Os bydd Aelod yn gofyn dylid cadw cofnod yn y Cofnodion o'r modd y pleidleisiodd yr Aelod neu'r ffaith ei fod wedi atal ei bleidlais.
- 15.5 Os bydd o leiaf bedwar aelod yn dynodi hynny, dylid cynnal pleidlais a gofnodir a dylai enwau'r rhai sy'n pleidleisio o blaid, yn erbyn ac yn atal eu pleidlais gael eu cofnodi yn y cofnodion

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

16.0 Cofnodion o Bresenoldeb – Aelodau

Bydd pob Aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Awdurdod neu unrhyw un o'i Bwyllgorau neu Is-bwyllgorau y mae'n aelod ohono'n llofnodi ei enw yn y llyfr presenoldeb neu ar y daflen presenoldeb a ddarperir at y diben hwnnw.

17.0 Ymddygiad Afreolus – Aelodau

17.1 Yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Awdurdod, os yw'r Cadeirydd o'r farn ac yn hysbysu'r cyfarfod bod unrhyw Aelod yn camymddwyn trwy ddiystyru dyfarniad y Cadeirydd yn barhaus, neu drwy ymddwyn yn afreolaidd, yn amhriodol neu'n dramgwyddus, neu drwy rwystro busnes yr Awdurdod yn fwriadol, gall y Cadeirydd neu unrhyw Aelod arall gynnig "Nad yw'r Aelod a enwir yn cael ei glywed ymhellach", a dylai'r cynnig os caiff ei eilio gael ei roi gerbron a'i benderfynu heb drafodaeth.

17.2 Os yw'r Aelod a enwyd yn parhau i gamymddwyn ar ôl i gynnig dan y paragraff blaenorol gael ei dderbyn dylai'r Cadeirydd:

Naill ai cynnig "Bod yr Aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod" (gyda'r cynnig yn cael ei roi gerbron a'i benderfynu heb eilio na dadl)

Neu ohirio cyfarfod yr Awdurdod am ba bynnag gyfnod sy'n fuddiol ym marn y Cadeirydd.

17.3 Os ceir aflonyddwch cyffredinol sydd, ym marn y Cadeirydd yn ei gwneud yn amhosibl cyflawni busnes mewn modd priodol a threfnus, yn ogystal ag unrhyw bŵer arall sydd ganddo gall y Cadeirydd, heb roi'r cwestiwn gerbron, ohirio cyfarfod yr Awdurdod am ba bynnag gyfnod sy'n fuddiol ym marn y Cadeirydd.

18.0 Aflonyddwch – Aelodau o'r Cyhoedd

Os bydd aelod o'r cyhoedd yn tarfu ar y trafodion mewn unrhyw gyfarfod dylai'r Cadeirydd ei rybuddio. Os bydd yn parhau i darfu dylai'r Cadeirydd orchymyn ei fod yn cael ei hebrwng o'r cyfarfod. Yn achos aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o'r Siambr sy'n agored i'r cyhoedd dylai'r Cadeirydd orchymyn bod y rhan honno'n cael ei chlririo.

19.0 Recordio a Ffilmio Cyfarfodydd

Er bod yr Awdurdod yn darparu recordiadau cyhoeddus wedi'u ffilmio o'i gyfarfodydd ni ddylid caniatáu i'r cyhoedd ffilmio na recordio trafodion, ac eithrio dan amgylchiadau arbennig, ac yn ôl disgresiwn y Cadeirydd.

20.0 Defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol gan Aelodau

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

Yn ystod cyfarfodydd o'r Awdurdod a'i bwyllgorau ni ddylai Aelodau ddefnyddio unrhyw fath o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu gydag unrhyw berson.

21.0 Sêl yr Awdurdod

21.1 Gofal am y Sêl

Dylai Sêl Gyffredin yr Awdurdod gael ei chadw yng ngofal ymgynghorwyr cyfreithiol yr Awdurdod.

21.2 Selio Dogfennau

Ni ddylid gosod Sêl yr Awdurdod ar unrhyw ddogfen oni bai fod y mater wedi cael ei awdurdodi trwy benderfyniad gan yr Awdurdod neu gan Bwyllgor neu Is-bwyllgor y mae'r Awdurdod wedi dirprwyo'i bwerau iddo ar gyfer hyn.

21.3 Tystio i'r Sêl

Dylai'r Prif Weithredwr neu Gyfreithiwr yr Awdurdod dystio i'r Sêl a dylid gwneud cofnod o bob gweithred i selio dogfen a rhifo'r gweithredoedd hynny mewn cofrestr selio a gedwir gan Gyfreithiwr yr Awdurdod a dylai pob cofnod gael ei lofnodi gan y sawl a dystiodd i'r sêl.

22.0 Archwilio Tiroedd, Adeiladau a.y.b.

Oni bai ei fod wedi'i awdurdodi'n benodol i wneud hynny gan yr Awdurdod neu Bwyllgor, ni ddylai Aelod ddyroddi unrhyw orchymyn mewn perthynas ag unrhyw waith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran yr Awdurdod na hawlio yn rhinwedd ei aelodaeth o'r Awdurdod unrhyw hawl i archwilio neu fynd ar unrhyw diroedd neu i mewn i unrhyw adeiladau y mae gan yr Awdurdod y pŵer neu ddyletswydd i'w harchwilio neu fynd arnynt neu i mewn iddynt.

23.0 Archwilio Dogfennau

23.1 Gall Aelod, at ddibenion ei ddyletswydd fel Aelod o'r fath, ond nid fel arall, ar ôl cyflwyno cais i'r Prif Weithredwr, archwilio unrhyw ddogfen sydd wedi cael ei hystyried gan yr Awdurdod neu Bwyllgor ac os oes copïau ar gael bydd copi o'r ddogfen honno'n cael ei ddarparu ar ei gyfer at yr un diben os gofynnir.

Ar yr amod na ddylai Aelod yn fwriadol archwilio ac na ddylai alw am gopi o unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â mater y mae ganddo ef neu ei briod fuddiant proffesiynol ynddo neu y mae ganddo, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw fuddiant ariannol ynddo yn ôl ystyr Adran 95 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu unrhyw fuddiant personol yn ôl y diffiniad a geir yng Nghod Ymddygiad yr Awdurdod ar gyfer Aelodau ac na fydd y Rheol Sefydlog hon yn atal ymgynghorwyr cyfreithiol yr Awdurdod rhag gwrthod caniatáu archwilio unrhyw

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

ddogfen sydd neu a fyddai mewn achos cyfreithiol wedi'i gwarchod gan fraint sy'n deillio o'r berthynas rhwng cyfreithiwr a chleient.

- 23.2 Bydd yr holl adroddiadau a gaiff eu llunio neu gofnodion a gaiff eu cadw gan yr Awdurdod fod ar gael i'w harchwilio gan unrhyw Aelodau o'r Awdurdod cyn gynted ag y bydd yr Awdurdod wedi cwblhau camau gweithredu ar y mater y mae'r adroddiadau neu'r cofnodion hynny'n ymwneud â hwy.

24.0 Cyfrinachedd

Ni ddylai unrhyw un o Aelodau na Swyddogion yr Awdurdod:

- 24.1 ddatgelu unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd i'r Awdurdod neu Bwyllgor ac sy'n wybodaeth gyfrinachol fel a ddiffinnir gan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;
a
- 24.2 heb ganiatâd yr Awdurdod neu'r Pwyllgor perthnasol, datgelu unrhyw wybodaeth y nodwyd ei bod yn wybodaeth esempt mewn penderfyniad gan yr Awdurdod neu Bwyllgor neu Is-bwyllgor i wahardd y cyhoedd yn unol â darpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

25.0 Penodi Pwyllgorau

- 25.1 Bydd yr Awdurdod yn penodi pa bynnag Bwyllgorau sy'n angenrheidiol i gyflawni gwaith yr Awdurdod a bydd pob Pwyllgor neu Is-bwyllgor a benodir felly'n dal i fodoli tan gyfarfod blynyddol nesaf yr Awdurdod.
- 25.2 Bydd y Pwyllgorau'n cyfateb i'r rhai a nodir yn "Amodau Gorchwyl yr Awdurdod a'i Bwyllgorau" ac ni ddylai'r Awdurdod na'i Bwyllgorau benodi unrhyw Bwyllgorau nac Is-bwyllgorau eraill ac eithrio ar argymhelliad yr Awdurdod.
- 25.3 Yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau i'r gwrthwyneb mewn unrhyw Statud, Rheol Sefydlog neu ar benderfyniad cynharach gan yr Awdurdod:
- 25.3.1 Dylai Aelod a benodwyd i un o Bwyllgorau'r Awdurdod wasanaethu arno tan Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod neu nes ei fod yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod, pa un bynnag yw'r cynharaf;
 - 25.3.2 dylai unrhyw Swyddog a gyfetholwyd i unrhyw weithgor wasanaethu ar y gweithgor hwnnw tan Gyfarfod Blynyddol yr Awdurdod neu nes ei fod yn peidio â bod yn Swyddog, pa un bynnag yw'r cynharaf;
 - 25.3.3 dylai Aelod o'r Awdurdod a benodwyd i'w gynrychioli ar gorff ar wahân i'r Awdurdod neu un o'i Bwyllgorau wasanaethu arno tan Gyfarfod Blynyddol yr

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

Awdurdod neu nes ei fod yn peidio â bod yn Aelod o'r Awdurdod, pa un bynnag yw'r cynharaf.

- 25.4 Yn ogystal â'r hawliau a roddir gan Reol Sefydlog 11.6, bydd gan Aelodau'r hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod o unrhyw Bwyllgor ac i barhau i fod yn bresennol hyd yn oed os oes penderfyniad i wahardd y cyhoedd yn cael ei basio. Ni fydd gan yr Aelodau hynny hawl i siarad na phleidleisio yn y cyfarfodydd ac ni ddylid eu cyfrif at ddibenion canfod a oes cworwm, ac ni fydd hawl ganddynt i lofnodi cofrestr o bresenoldeb ychwaith nac i'w presenoldeb gyfrif at unrhyw ddiben yn y Rheolau Sefydlog hyn.
- 25.5 Gan fod presenoldeb o'r fath yn bresenoldeb fel sylwedydd, ni ddylai gyfrif ar gyfer talu unrhyw dreuliau.
- 25.6 Ni fydd yr hawl hon i fod yn bresennol yn gymwys yn achos unrhyw Bwyllgor neu Is-bwyllgor sy'n arfer swyddogaeth farnwrol neu led-farnwrol nac unrhyw Banel sy'n cyfweld ymgeiswyr wrth benodi staff.

26.0 Atal y Rheolau Sefydlog

- 26.1 Yn amodol ar baragraff 24.2 o'r Rheol Sefydlog hwn, gall unrhyw un o'r Rheolau Sefydlog blaenorol gael ei hatal mewn perthynas ag unrhyw fusnes yn y cyfarfod lle cynigir ei gwahardd.
- 26.2 Ni ddylai cynnig i atal Rheolau Sefydlog gael ei wneud heb rybudd oni bai fod o leiaf ddwy ran o dair o holl Aelodau'r Awdurdod yn bresennol.

27.0 Dehongli'r Rheolau Sefydlog

Bydd penderfyniad y Cadeirydd ynghylch pob pwynt o weithdrefn, trefn ac o ran dehongli'r Rheolau Sefydlog yn derfynol ac ni fydd dadl yn dilyn ar y penderfyniad.

28.0 Rheoliadau Ariannol

Dylai'r Awdurdod a holl Bwyllgorau, Aelodau a Swyddogion yr Awdurdod gydymffurfio â'r rheoliadau ariannol a wnaed gan yr Awdurdod dan ddarpariaethau Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

29.0 Penodi Prif Swyddogion

- 29.1 Bydd yr Awdurdod yn penodi Pwyllgor Penodi o fewn gofynion paragraff 13.3 o Atodlen 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995, a hwnnw'n gynnwys hyd y bo'n bosibl Gadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy a'r Pwyllgor Archwilio a Chraffu

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017

- 29.2 Lle mae'r Awdurdod yn cynnig penodi prif swyddog fel a ddiffiniwyd gan Reoliad 1(2) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) 1993 a lle na chynigir bod y penodiad yn cael ei wneud o blith ei swyddogion presennol yn unig, dylai'r Pwyllgor Penodi:
- 29.2.1 Iunio manyleb person a swydd-ddisgrifiad ar gyfer y swydd
 - 29.2.2 gwneud trefniadau i hysbysebu'r swydd mewn ffordd sy'n debygol o'i dwyn i sylw pobl sy'n gymwys i wneud cais amdani; a
 - 29.2.3 gwneud trefniadau i gopi o becyn y swydd gael ei anfon at unrhyw berson ar gais.
 - 29.3.4 Iunio rhestr o ymgeiswyr addas a'u cyfweld
 - 29.2.5 cyflwyno argymhellion i'r Awdurdod ynghylch dewis terfynol, er mwyn i'r Awdurdod gyfweld a gwneud y penodiad
- 29.3 Lle nad oes person cymwys wedi ymgeisio, dylai'r Awdurdod wneud trefniadau pellach ar gyfer hysbysebu yn unol â Rheol Sefydlog 27.2.2.
- 29.4 Bydd pob penodiad i swydd prif swyddog yn cael ei wneud gan yr Awdurdod.

APCBB: Rheolau Sefydlog - Cymeradwywyd 20 Mai 2010

Diwygiwyd parthed y cyfryngau cymdeithasol – cymeradwywyd 3 Mai 2013

Diwygiwyd parthed cworwm a diwygiadau 22 Mai 2015

Diwygiwyd parthed gohebiaeth hwyr 8 Ebrill 2016

Diwygiwyd parthed cworwm ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Mynediad a Hawliau Tramwy 19 Mehefin 2017